Gwybodaeth i ferched beichiog sy'n hepatitis B positif

Mae'r daflen yma i ferched beichiog sy'n hepatitis B positif. Mae hynny'n golygu eich bod chi'n cario'r firws hepatitis B.

Mae'r daflen yma'n cynnig gwybodaeth i chi am:

- fod yn hepatitis-B positif; a
- brechiadau a allai rwystro'ch babi rhag dal y firws gennych chi ar ôl y geni.

Beth mae canlyniad fy mhrawf gwaed yn golygu?
Mae canlyniad eich prawf gwaed yn golygu eich bod chi wedi dal firws hepatitis B ar ryw adeg. Mae'n annhebygol y gwnaiff eich babi ddal y firws tra'r ydych chi'n feichiog, **ond mae siawns uchel y gallech chi drosglwyddo'r firws i'ch babi yn ystod y geni**.

Beth yw hepatitis B?
Firws sy'n ymosod ar yr afu yw Hepatitis B. Does dim symptomau gan lawer o'r bobl sy'n cario hepatitis B ac efallai dydyn nhw ddim yn gwybod bod y firws arnyn nhw tan y cân nhw brawf sgrinio.

Fydd rhai pobl sy'n dal y firws ddim yn cael gwared â'r firws o'u cyrff. Mae'n aros yn eu cyrff, er eu bod nhw'n ymddangos yn iach. Os yw hyn yn digwydd i chi, rydych chi'n 'gludydd hepatitis B'. Er eich bod chi'n iach, fe allwch chi drosglwyddo'r firws i bobl eraill.

Gallwch chi drosglwyddo'r firws i rywun arall os:

- yw eich gwaed chi'n dod i gyswllt â'u gwaed nhw;
- ydych chi'n cael cyfathrach rywiol;
- ydych chi'n ei drosglwyddo i'ch babi yn ystod y geni.

Allwch chi ddim trosglwyddo'r firws i bobl eraill drwy gyswllt cymdeithasol arferol, er enghraifft, wrth siopa, wrth fod gyda ffrindiau a theulu, neu wrth fwyta prydau bwyd gyda'ch gilydd.

Mae hepatitis B yn gyffredin iawn mewn rhai rhannau o'r byd ac mae llawer o bobl yn ei ddal gan eu mamau wrth gael eu geni. Dyna pam mae'r gwledydd yna'n cynnig brechiad hepatitis B i bob babi. Yn y DU, dim ond i fabanod y mae eu mamau'n hepatitis B positif y byddwn ni'n cynnig y brechiad.

Pa driniaeth sydd ar gael?
Fe gewch chi gyfle i fynd i weld arbenigwr a allai wneud profion i fesur unrhyw niwed i'r afu. Fe all yr arbenigwr argymell triniaeth.

Information for Women

© Public Health Wales NHS Trust

Fydd fy mabi'n dal y firws?
Gan fod hepatitis B arnoch chi, mae'n debygol iawn y byddwch chi'n trosglwyddo'r firws i'ch babi yn ystod y geni. Mae 9 siawns mewn 10 (90%) y bydd eich babi'n dal y firws ac yn cario hepatitis B am weddill ei oes. Os na chafodd eich babi driniaeth, byddai siawns uchel y gallai ddatblygu problemau difrifol fel niwed i'r afu'n nes ymlaen yn ei oes.

Pa driniaeth sydd ar gael i fy mabi?
Byddwn ni'n gofyn am eich caniatâd i'ch babi gael brechiad diogel ac effeithiol. Fe all y brechiad ddiogelu'r babi rhag cario'r firws a datblygu problemau ar yr afu.

I'w ddiogelu'n effeithiol rhag hepatitis B, bydd angen i'ch babi gael pedwar brechiad cyn ei ben-blwydd cyntaf.
Fe ddylai'r brechiad cyntaf gael ei roi o fewn 48 awr i'r geni. Os yw canlyniad eich prawf gwaed yn dangos bod y firws hepatitis B sydd arnoch chi'n heintus iawn, bydd cyfle i'ch babi gael brechiad arall yr un pryd er mwyn ei ddiogelu'n well rhag y firws.

Bydd angen tri brechiad arall ar eich babi. Fe gaiff y rhain pan mae'n:

- fis oed;
- deufis oed; a
- 12 mis oed.

Mae'n bwysig iawn i'ch babi gael y cwrs llawn o frechiadau, er mwyn cael ei ddiogelu'n fwyaf effeithiol.

Fe ddylech chi gael gwahoddiad i ddod â'ch babi i gael y brechiadau. Os na chewch chi wahoddiad, holwch eich doctor neu ymwelydd iechyd am y brechiadau y dylai'ch babi eu cael.

Ar ôl i'ch babi gwblhau'r cwrs o frechiadau bydd y meddyg yn awyddus i'r babi gael prawf gwaed. Pwrpas y prawf gwaed yw gwneud yn siŵr bod y brechiadau wedi bod yn llwyddiannus a bod eich babi'n rhydd rhag yr haint.

Sut gallaf i gadw'n iach er bod hepatitis B arnaf i?
Gall y pethau syml yma eich helpu chi i gadw'n iach:

- Peidiwch ag yfed alcohol – fe all niweidio'r afu.
- Dywedwch wrth eich doctor eich bod chi'n cario hepatitis B, a holwch am unrhyw driniaeth neu brofion a allai helpu.
- Holwch ddoctor cyn cymryd unrhyw foddion, hyd yn oed meddyginiaethau llysieuol neu rai y gallwch eu prynu heb bresgripsiwn (er enghraifft, asbirin).
- Peidiwch byth â chwistrellu cyffuriau. Gallai hynny roi dau fath arall o haint hepatitis (hepatitis C a D) i chi sydd hefyd yn niweidio'r afu. Os ydych chi'n gaeth i gyffuriau, ewch i ganolfan i'r rhai sy'n camddefnyddio cyffuriau i ofyn am help.

© Public Health Wales NHS Trust

Cyfrinachedd
Er mwyn i chi a'ch babi gael y gofal gorau, bydd angen i ni gynnwys arbenigwyr eraill. Cyn cynnwys yr arbenigwyr yma yn eich gofal chi, bydd eich bydwraig yn gofyn a ydych chi'n fodlon iddyn nhw gael gwybodaeth amdanoch chi.

Ble gallaf i gael mwy o wybodaeth?

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth am hepatitis B a phrofion cyn geni gan fydwraig yr ysbyty sy'n arbenigo ar sgrinio cyn geni, neu gan ddoctor yr ysbyty (yr obstetregydd).

Gallwch chi hefyd gysylltu â'r *British Liver Trust* yn:
2 Southampton Road
Ringwood
BH24 1HY
Ffôn: 0870 770 8028
Gwefan: www.britishlivertrust.org.uk

Cymraeg Clir®

© Hawlfraint Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2011. Mae pob hawl wedi'i chadw. Chewch chi ddim atgynhyrchu'r daflen gyfan neu ran ohoni heb ofyn am ganiatâd perchennog yr hawlfraint.
www.antenantalscreening.org
Ebrill 2011
HB Rhifyn 2

Information for Women

© Public Health Wales NHS Trust